

Canllaw Gwirio ID ar gyfer Ceisiadau DBS

Mae angen cadarnhau pwy ydych er mwyn prosesu eich cais DBS. Mae angen i chi ddarparu dogfennau cyfredol a gwreiddiol (nid llungopïau) yn eich enw presennol, gydag un ddogfen yn dangos eich cyfeiriad presennol ac un i ddangos eich dyddiad geni. Mae angen dangos y rhain i'r sawl sydd wedi gofyn i chi lenwi'r ffurflen DBS.

Rhaid i chi ddilyn naill ai Dewis 1, 2 neu 3 yn dibynnu pa ddogfennau sydd gennych.

Dewis 1

Rhaid i chi fedru dangos:

- un ddogfen o Grŵp 1 isod a 2 ddogfen bellach o naill ai Grŵp 1, neu Grŵp 2a neu 2b isod.
- Rhaid i o leiaf un o'r dogfennau ddangos eich cyfeiriad presennol.

Dewis 2

Ni ellwch ddefnyddio Llwybr 2 os nad ydych yn ddinesydd o'r Deyrnas Unedig neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'ch bod yn ymgeisio am waith gwirfoddol.

Os nad oes gennych unrhyw rai o'r dogfennau yn Grŵp 1, yna rhaid i chi fedru dangos:

- un ddogfen o Grŵp 2a
- 2 ddogfen bellach o naill ai Grŵp 2a neu 2b isod.
- Rhaid i o leiaf un o'r dogfennau ddangos eich cyfeiriad presennol.

Dewis 3

Gellir defnyddio Dewis 3 yn unig lle mae'n amhosibl prosesu'r cais drwy Ddewisiadau 1 neu 2.

Ni all dinasyddion o'r AEE sydd wedi byw yn y DU am 5 mlynedd neu lai ddefnyddio Dewis 3.

Ar gyfer Dewis 3 rhaid i chi fedru dangos:

- tystysgrif geni a roddwyd adeg geni (DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw) ac
- un ddogfen o Grŵp 2a a
- 3 dogfen bellach o naill ai Grŵp 2a neu 2b
- Rhaid i o leiaf un o'r dogfennau ddangos eich cyfeiriad presennol.

Grŵp 1: Prif ddogfennau adnabod

Pasport	Unrhyw basport cyfredol a dilys
Trwydded breswyllo fiometrigrig	DU
Cerdyn llun trwydded yrru gyfredol - (llawn neu dros dro)	DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a'r AEE.

Tystysgrif geni - a roddwyd o fewn 12 mis o'r geni	DU, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw - yn cynnwys rhai a roddwyd gan awdurdodau'r DU dramor, er enghraifft llysgenadaethau, Uchel Gomisiynau a'r Lluoedd Arfog
Tystysgrif fabwysiadu	DU ac Ynysoedd y Sianel

Grŵp 2a: Dogfennau dibynadwy llywodraeth

Cerdyn llun trwydded yrru gyfredol - (llawn neu dros dro)	Holl weledydd tu allan i'r AEE (ac eithrio Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel)
Trwydded yrru gyfredol - (llawn neu dros dro) - fersiwn bapur (os rhoddwyd cyn 1998)	DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a'r AEE
Tystysgrif geni - a roddwyd ar ôl adeg geni	DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw
Tystysgrif priodas /partneriaeth sifil	DU ac Ynysoedd y Sianel
Dogfen fewnfudo, fisa neu drwydded waith	Rhoddwyd gan wlad tu allan i'r AEE. Dilys yn unig ar gyfer swyddi lle mae'r ymgeisydd yn byw a gweithio y tu allan i'r DU. Rhaid i'r fisa/drwydded fod yn gysylltiedig â'r wlad tu allan i'r AEE y mae'r swydd wedi'i lleoli ynddi
Cerdyn adnabod y Lluoedd Arfog	DU
Trwydded gwn	DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw

Grŵp 2b: Dogfennau ariannol a hanes cymdeithasol

Datganiad morgais	DU neu AEE	Rhoddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
Datganiad banc neu gymdeithas adeiladu	DU ac Ynysoedd y Sianel neu'r AEE	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf
Datganiad banc neu gymdeithas adeiladu	Gwledydd tu allan i'r AEE	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf - rhaid i'r gangen fod yn y wlad lle mae'r ymgeisydd yn byw a gweithio
Llythyr gan fanc neu gymdeithas adeiladu yn cadarnhau agor cyfrif	DU	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf

Datganiad cerdyn credyd	DU neu AEE	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf
Datganiad ariannol, megis pensiwn neu waddol	DU	Rhoddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
Datganiad P45 neu P60	DU ac Ynysoedd y Sianel	Rhoddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
Datganiad Treth y Cyngor	DU ac Ynysoedd y Sianel	Rhaid iddo ddal i fod yn ddilys
Llythyr nawdd oddi wrth ddarpar ddarparwr cyflogaeth	Tu allan i'r DU a'r UEE yn unig - dilys yn unig yn achos ymgeiswyr yn byw y tu allan i'r DU adeg gwneud cais	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf
Bil gwasanaeth	DU - nid bil ffôn symudol	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf
Datganiad budd-dal, megis Budd-dal Plant, pensiwn	DU	Rhoddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf
Dogfen yn rhoi hawl oddi wrth lywodraeth ganolog neu leol, asiantaeth llywodraeth, neu gyngor lleol, er enghraifft, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Gwasanaeth Cyflogaeth, HMRC	DU ac Ynysoedd y Sianel	Rhaid iddo ddal i fod yn ddilys
Cerdyn adnabod cenedlaethol AEE		Rhaid iddo ddal i fod yn ddilys
Cardiau gyda logo achredu PASS	DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw	Rhaid iddo ddal i fod yn ddilys
Llythyr oddi wrth bennaeth ysgol neu goleg	DU - i rai 16 i 19 oed mewn addysg lawn-amser - defnyddir yn unig mewn amgylchiadau eithriadol os na ellir darparu dogfennau eraill	